# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 17 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(216)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (60 munud)**
**NDM5563 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE ar gyfer 2014-2020, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2014.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 10 Medi 2014.

**Dogfennau Ategol**
[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5565 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd ac y dylai'r Alban ddewis aros yn y DU ar 18 Medi 2014.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

1. Yn credu bod dyfodol yr Alban yn fater i bobl yr Alban.

2. Yn credu ymhellach mai'r ffordd orau o wasanaethu'r cysylltiadau cryf rhwng cenhedloedd yr ynysoedd hyn yw drwy ysbryd o gydweithredu a chydraddoldeb.

3. Yn nodi y byddai ymwreiddio'r Fformiwla Barnett, fel yr addawyd gan bleidiau'r DU yn yr ymgyrch 'Na' ar gyfer y refferendwm ar 18 Medi 2014, yn niweidiol i Gymru.

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg), Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Cymru, beth bynnag fo'r canlyniad, siarad ag un llais, ac yn galw am weithredu'n gyflym yr argymhellion yn Rhannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac am sefydlu confensiwn cyfansoddiadau ledled y DU i greu cynllun drafft am undeb newydd.

Mae Rhan 1 o adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i'w gweld drwy ddilyn y linc hwn:

http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2012/11/Welsh-WEB-main-report.pdf

Mae Rhan 2 o adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i'w gweld drwy ddilyn y linc hwn:

http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2014/03/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5562 Elin Jones AC (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod 266,000 o weithwyr yng Nghymru yn cael eu talu llai na'r cyflog byw.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at greu cyflog byw yng Nghymru drwy:

a) sefydlu cyflog byw ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

b) gweithio gyda chyflogwyr i esbonio manteision talu'r cyflog byw; a

c) cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Cyflogau Isel i sicrhau bod yr isafswm cyflog yn codi i lefel y cyflog byw erbyn 2020.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi ymhellach fod 98.4% o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau micro neu fach, a bod angen sicrhau bod unrhyw bolisi cyflog byw yn ddichonadwy yn ogystal â sicrhau bod ein busnesau bach yn goroesi.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu 2 c) a rhoi yn ei le:

Sefydlu adolygiad annibynnol i ymgynghori ar sut i bennu cyflog byw teg, gan weithio gyda rhanddeiliaid fel y Sefydliad Cyflog Byw, heb niweidio cyfleoedd cyflogaeth ac er mwyn gwella camau gorfodi.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru yn derbyn toriad treth o £800 o fis Ebrill 2015 ymlaen diolch i benderfyniad Llywodraeth y DU i godi'r trothwy treth incwm i £10,500, ac y bydd hyn yn cynorthwyo'r gweithwyr hynny yng Nghymru sy'n cael eu talu llai na'r cyflog byw.

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r trothwy treth incwm gael ei godi i £12,500, i sicrhau na fydd gweithwyr sy’n cael eu talu’r cyflog isafswm yn gorfod talu treth incwm o gwbl.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5564 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

Gohebiaeth ar bapur: hawl y defnyddiwr i ddewis

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Medi 2014

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Medi 2014 i'w hateb ar 17 Medi 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

**1. Elin Jones (Ceredigion):** Pa effaith y disgwylir y bydd cael gwared ar y Gronfa Ariannol wrth Gefn i brifysgolion yn ei chael ar fyfyrwyr? OAQ(4)0465(ESK)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau maint dosbarthiadau ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0464(ESK)

**3. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Twf Swyddi Cymru yn Sir y Fflint? OAQ(4)0469(ESK)

**4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ysgolion ffydd? OAQ(4)0455(ESK)

**5. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganlyniadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd? OAQ(4)0454(ESK)

**6. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru? OAQ(4)0452(ESK)

**7. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei asesiad o effaith y toriadau yn ei gyllideb dros yr haf ar bobl ifanc? OAQ(4)0463(ESK)**W**

**8. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r cwricwlwm ysgol gynradd newydd? OAQ(4)0457(ESK)

**9. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan yr Athro Donaldson yn ei adolygiad o'r cwricwlwm TGAU? OAQ(4)0459(ESK)

**10. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y pynciau a gaiff eu trafod drwy wersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0456(ESK)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer addysg uwch? OAQ(4)0453(ESK)

**12. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynnydd a wnaed i ddatblygu cydweithrediad rhwng ysgolion a cholegau ynglŷn â Llwybrau Dysgu 14-19? OAQ(4)0467(ESK)**W**

**13. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o addysg uwch yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0468(ESK)

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido addysg uwch yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0462(ESK)

**15. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y toriad o 8% yn y cyllid a roddir i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion? OAQ(4)0460(ESK)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**1. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma gyda'r sefydliad Sirolli yng nghymoedd de Cymru? OAQ(4)0449(EST)

**2. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus o ran gwneud y gorau o gyfleoedd twristiaeth? OAQ(4)0454(EST)

**3. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0453(EST)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer twristiaeth? OAQ(4)0457(EST)

**5. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yng Nghymru? OAQ(4)0446(EST)

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo datblygiad y sector ariannol yng Nghymru? OAQ(4)0441(EST)

**7. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0445(EST)

**8. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau ffordd rhwng Canolbarth a Gorllewin Cymru a gorllewin canolbarth Lloegr? OAQ(4)0443(EST)

**9. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gamau y cymerodd y Gweinidog yn ddiweddar i gyflawni ei hamcanion o ddatblygu system drafnidiaeth integredig? OAQ(4)0452(EST)**W**

**10. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fanteision economaidd y gwasanaethau post cyffredinol i fusnesau yng Nghymru? OAQ(4)0455(EST)

**11. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wella cysylltedd trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0442(EST)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yn Islwyn? OAQ(4)0444(EST)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun benthyciadau dechrau busnes Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0456(EST)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella llif traffig o fewn trefi a dinasoedd yng Nghymru? OAQ(4)0447(EST)

**15. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhagolygon cyflogaeth yng Nghymru? OAQ(4)0448(EST)